

Cofion a Chyfarchion

- Mae Meirion Evans (Henllan) yn Ysbyty Glan Clwyd yn dilyn anffawd yr wythnos ddiwethaf. Anfonwn ein cofion ato, gyda'n dymuniadau am adferiad buan. Cyflwynwn ef, a Bob Davies (Llanfair) sy'n parhau yn Ysbyty Llandudno – yn ogystal ag eraill sydd heb fod cystal eu hiechyd – i'r Arglwydd yn ein gweddiâu gan hyderu y byddant yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu.
- Cydymdeimlwn â'r rhai hynny sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf a gweddiwn y byddant oll yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau anodd hyn.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Maldwyn Jones (Cefn Berain) fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig dydd Mawrth. Diolchwn amdano ac am ofal arbennig y teulu drosto. Bydded bendith Duw arnynt oll.

Arian Sasiwn y Chwiorydd

Gair i'ch atgoffa y bydd trysorydd eich eglwys yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniadau tuag at gasgliad Sasiwn y Chwiorydd erbyn diwedd y mis, os gwelwch yn dda.

I ddod

- Derbynnir **CYWEITHIAU'R YSGOLION SUL** ar y thema 'Dathliadau'r Beibl a'r Eglwys' nos Lun, Ebrill 7fed, yng Nghapel Hyfrydle, Betws yn Rhos, rhwng 7 ac 8 o'r gloch.
- **NEW WORD ALIVE** – Gwyliu Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist ym mharc gwyliau Pontins, Prestatyn LL19 7LA rhwng Ebrill 7fed – 12fed ac Ebrill 12fed-17eg. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: 0871 474 0009/www.newwordalive.org
- **CYFARFOD CYMDEITHASOL CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn Festri Capel Mawr, Dinbych nos Fawrth, Ebrill 8fed am 7.30. Y wraig wadd fydd y Parch. Nan Wyn Powell-Davies. Croeso cynnes i bawb.
- **LLANW** – Gŵyl Gristnogol i ddathlu'r atgyfodiad ar gyfer y teulu cyfan yn Ninbych y Pysgod, Sir Benfro rhwng Ebrill 21ain-25ain. Mae croeso i bawb, plant, teuluoedd, myfyrwyr, parau a phobl sengl o bob oed! Croeso cynnes i'r di-Gymraeg ac i ddysgwyr; bydd offer cyfieithu ar gael. Am fwy o wybodaeth, ewch i'r wefan: www.llanw.org
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yn Nolgellau dydd Mercher, Ebrill 30ain. Mwy o fanylion i ddilyn.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 16^{eg} Mawrth 2014

Darlleniad y Dydd

Salm 15

(BCND tud.496 / BCN: tud.453)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da, a chroeso i oedfaon y dydd. Gweddiwn y cawn olwg newydd ar gariad Iesu a'i fawredd fel Arglwydd. Rhoddwn ein hunain iddo gan godi moliant trwy'r Fro i'w enw gogoneddus. Mae ei enw'n ardderchog ar yr holl ddaear! (Salm 8)

Un o gwestiynau mawr bywyd ydi'r un a geir yn y Salm heddiw: "Pwy a esgyn i fynydd yr Arglwydd, a phwy a saif yn ei le sanctaidd Ef?" (Salm 15) Daw'r ateb: "Y glân ei ddwylo a'r pur ei galon" Ond mae fy nghalon a'm dwylo'n bell o fod felly. Dim ond Un, Iesu, sydd yn cael esgyn i fynydd Duw. Ef yn unig sydd yn ddigon glân ei ddwylo a phur ei galon. Dyma Oen Duw sydd wedi ei demtio ymhob peth fel ni, eto heb bechod. Yr hyn sy'n codi rhyfeddod a moliant felly ydi sylweddoli fod Iesu yn mynd ar y blaen i ni i fyny'r mynydd a'n bod ni yn cael dod at Dduw wedi ein cuddio yn ei deilyngdod Ef. Yng Nghrist cawn fynd i mewn at Dduw er mwyn cael ei gwmni a'i addoli!

Dyrchafwn ei foliant felly gan ganu, gweddi, gwranddo a gweithredu hefo'n gilydd. Gadewch i ni gofio teuluoedd y Fro yn ein gweddiâu gan weddi dros bob un fydd yn clywed gair Duw. Mae llawer ohonom mewn galar a gofid ond credwn fod Gair Duw yn addas i bob cyflwr a bydd yn gynhaliath i bob un dim ond i ni ofyn i Dduw am ei fendith arno.

Heno, mae cyfres newydd o bregethau yn dechrau a fydd yn canolbwyntio ar agweddau ymarferol o fyw fel Cristion heddiw. Bydd y gyfres yn rhoi arweiniad ar sut y mae'r Beibl yn esbonio cyflyrau megis salwch, marwolaeth, caethiwed ac ati a hefyd yn rhoi arweiniad o'r Beibl ar sut i ddelio hefo arian, perthynas hefo pobl, priodas a rhywioldeb. Byddwn hefyd, os Duw a'i myn, yn edrych ar berthynas y Cristion â'r Eglwys, Cristnogaeth a gwyddoniaeth, ac yn ystyried beth sy'n gwneud Cristnogaeth yn wahanol i grefyddau a chredoau eraill. Gobeithio y cewch gyfle i ddod atom i gyd-addoli ac i gyd-ddysgu o Air Duw.

Wrth i'r Pasg agosáu byddwn yn cynnal nifer o gyfarfodydd amrywiol ac mae defnyddiau newydd ar gael yn Gymraeg sy'n rhannu neges y Pasg. 'Blas ar Fywyd' ydi teitl y defnyddiau ('A Passion 4 Life' yn Saesneg). Gobeithio eto y cawn gyfle i ddsbarthu a rhannu'n ffydd ag eraill dros y cyfnod yma gan weddi am fendith Duw ar y neges fawr am Iesu'n dringo'r mynydd ac yn gwneud mynydd y benglog yn fynydd buddugoliaeth!

Darlleniad Wythnos Nesaf

Philipiad 2:5-11 (BCND tud.217 / BCN: tud.199)

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sioned Williams, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
lau • **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
• **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Rhewl. Pwyllgor Gwaith am 4.30, a Gwaith yr Henaduriaeth am 6.00. Croeso i drysoryddion yr eglwysi (neu gynrychiolwyr) i'r Pwyllgor Gwaith i drafod y ddogfen ariannu a'r argymhelliad a ddaeth gan y Pwyllgor Adnoddau ac Eiddo.
- **Cwrdd Chwarter Annibynwyr Dyffryn Clwyd** am 7.00 yng Nghapel Pendref, Rhuthun. Yn dilyn y materion busnes, fe geir arweiniad gan Mrs Julie Edwards, Swyddog Diogelwch y Panel Diogelwch Cydenwadol i'r Llawlyfr newydd "Diogelu Grwpiau Bregus" sy'n cynnig canllawiau ymarferol i bolisi ac ymarfer da yr eglwysi wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc ac oedolion bregus.
- Gwener • **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Mr Wyn Davies yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch. Gwyndaf Jones yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- lau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10. Hefyd, bydd Pwyllgor Cymorth Cristnogol yn dilyn Oedfa'r Fro.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd y Parch. Gwyndaf Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Henllan am 2.00, ac yn dilyn yr oedfa, bydd te i bawb wedi ei drefnu gan blant yr Ysgol Sul i godi arian i'r plentyn o Senagal y mae'r eglwys yn ei noddi. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00, gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Henllan.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 10.45. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa yno am 10.45.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd y Parch. Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa yno am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i'r newyddion da am Grist, dathlu Ei bresenoldeb a gwasanaethu mewn ffordd gyfoes a pherthnasol.